**CYNGOR CYMUNED**
**LLANFIHANGEL-AR-ARTH**
**COMMUNITY COUNCIL**

# POLISI
# IECHYD A DIOGELWCH

Mabwysiadwyd /
Adopted:

21.02.2022

**CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL-AR-ARTH**

**POLISI IECHYD A DIOGELWCH**

## Pwrpas

Pwrpas y Polisi hwn yw esbonio cyfrifoldebau'r Cymgor a'r gweithiwr o ran iechyd a diogelwch.

## Cyfrifoldeb am Iechyd a Diogelwch

Mae'r Cyngor, gyda chefnogaeth y Clerc yn gyfrifol am iechyd, er bod gan bawb sydd ynghlwm wrth waith y Cyngor gyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch, fel yr eglurir yn y polisi hwn.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod iechyd a diogelwch gweithwyr yn cael eu diogelu yn yr holl weithgareddau yn y Gwaith. Yn benodol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am y canlynol:

***Gofalu fod y peiriannau a'r offer yn ddiogel a digonol***

*Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr holl beiriannau ac offer yn cael eu harchwilio a'u cynnal a chadw'n rheolaidd, yn unol â'r atodlen cynnal a chadw. Gwneir unrhyw waith atgyweirio cyn gynted ag y bo modd. Os bernir fod unrhyw beiriannau neu offer wedi cael eu difrodi neu'n anaddas i'w defnyddio am unrhyw reswm, trefnir and ydynt ar gael i'w defnyddio gan ddefnyddio arwyddion clir.*

***Adeiladau a gweithleoedd diogel***

*Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr adeiladau a ddefnyddir gan y Cyngor ar gyfer ei weithgareddau yn ddiogel a bod pob perygl yn cael eu symud lle bynnag y bo modd. Os nad yw'n bosib symud y perygl, bydd arwyddion clir yn cael eu harddangos yn rhoi gwybod i weithwyr ac unrhyw ymwelwyr eraill am natur y perygl ac y dylid cymryd rhagofalon.*

***Cydweithwyr cymwys a diogel***

*Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael yr hyfforddiant priodol fel eu bod yn gymwys yn eu holl ddyletswyddau gwaith. Os yw unrhyw weithiwr yn ymddwyn mewn modd sy'n debygol o roi eraill mewn perygl, cymerir camau disgyblu priodol.*

## System Weithio Ddiogel

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr holl brosesau gwaith yn ddiogel. Os oes unrhyw beryglon bydd y Cyngor yn ceisio eu symud. Os nad yw hynny'n bosib, bydd arwyddion clir yn cael eu harddangos yn rhoi gwybod i weithwyr ac unrhyw ymwelwyr eraill am natur y perygl ac y dylid cymryd rhagofalon.

## Cyfrifoldebau'r Gweithiwr

Mae'r gweithiwr yn gyfrifol am sicrhau nad yw ei weithredoedd ef/gweithredoedd hi yn creu perygl i'w hunain nac i unrhyw un arall. Mae prif gyfrifoldebau'r gweithiwr yn cynnwys y canlynol:

***Peidio ymyrryd ag unrhyw offer***

*Ni ddylai gweithwyr wneud unrhyw addasiadau i offer allai effeithio ar iechyd a diogelwch. Mae gweithwyr sy'n ymyrryd ag offer yn debygol o wynebu camau disgyblu, allai gynnwys diswyddiad diannod.*

***Peidio defnyddio unrhyw offer heb gael hyfforddiant priodol***

*Ni ddylai unrhyw weithiwr ddefnyddio unrhyw offer heb gael yr hyfforddiant priodol. Mae'r gweithiwr yn gyfrifol am fynd i unrhyw hyfforddiant a drefnir ac am gwblhau unrhyw asesiadau angenrheidiol.*

***Cymryd gofal rhesymol o'u hiechyd a diogelwch eu hunain***

*Disgwylir i weithwyr ymddwyn yn rhesymol ac i gymryd gofal o'u hiechyd a diogelwch eu hunain. Mae hyn yn cynnwys gwisgo unrhyw ddillad gwarchod angenrheidiol a pheidio ymddwyn mewn ffordd beryglus. Rhaid i bob gweithiwr ofalu nad yw eu gweithredoedd yn peryglu unrhyw weithwyr eraill nac ymwelwyr â'r Cyngor.*

***Gwneud defnydd priodol o offer***

*Dylai gweithwyr ddefnyddio offer ar gyfer y pwrpas y'i darparwyd, ac nid at unrhyw bwrpas arall. Os caiff unrhyw offer ei ddifrodi, neu os nad yw'n gweddu i'w bwrpas mewn unrhyw ffordd, dylai'r gweithiwr roi gwybod i'r Cyngor yn syth.*

***Dilyn systemau gweithio priodol***

*Rhaid i bob gweithiwr ddilyn y systemau gweithio a nodwyd gan y Cyngor. Ni ddylid gwyro mewn unrhyw ffordd o'r systemau hyn heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Cyngor.*

## Offer Gwarchod Personol (PPE)

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am roi unrhyw offer gwarchod personol (PPE) sydd ei angen i weithwyr.

Os nad oes gan weithiwr y PPE priodol ar gyfer tasg benodol, dylai'r gweithiwr roi gwybod i'w rheolydd llinell yn syth a pheidio cyflawni'r dasg honno hyd nes bod y PPE ar gael.

Mae'r gweithiwr yn gyfrifol am ofalu am y PPE a roddwyd iddo/iddi. Os caiff unrhyw PPE ei ddifrodi, dylid rhoi gwybod i'r rheolydd llinell yn syth.

Rhaid i weithiwr ddychwelyd yr holl PPE s roddwyd iddo/iddi wrth adael cyflogaeth y Cyngor.

## Cemegau a Sylweddau Eraill

Rhaid i bob cemegyn a sylweddau eraill sy'n niweidiol i iechyd gael eu storio a'u defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchwyr. Bydd deunyddiau o'r fath yn cynnwys label COSHH (Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Niweidiol i Iechyd 2002), a rhaid dilyn y cyfarwyddiadau ar y label hwn yn llawn.

**Asesiadau Risg**

Mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal asesiadau risg yn rheolaidd o'r ardal a'r gweithgareddau y mae'n gyfrifol amdanynt. Dylid cynnal yr asesiadau risg bob blwyddyn o leiaf, a bydd angen cynnal rhai asesiadau risg yn amlach.

Dylid cofnodi'r asesiadau risg yn ysgrifenedig, a dylid cytuno ar ddyddiad ar gyfer unrhyw gamau a nodwyd.

Os oes unrhyw risgiau na ellir eu dileu, rhaid rhoi gwybod i bob gweithiwr sy'n gweithio yn yr ardal hon.

**Trïn â Llaw**

Rhaid i bob gweithiwr sy'n gwneud unrhyw waith codi neu gario fynd ar hyfforddiant ar waith trïn âllaw. Rhaid adnewyddu'r hyfforddiant hwn bob dwy flynedd. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ofalu fod pob gweithiwr sydd angen yr hyfforddiant hwn yn mynd ar y cwrs hyfforddiant ar yr amser priodol.

**Damweiniau**

Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau amgylchedd diogel, derbynnir y gall damweiniau ddigwydd.

Osy w damwain yn digwydd, rhaid rhoi gwybod i'r Clerc yn syth. Rhaid ei chofnodi hefyd yn y Llyfr Damweiniau.

Osy w unrhyw un o'r canlynol yn digwydd, rhaid rhoi gwybod I'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch o dan y gweithdrefnau RIDDOR (ewch i www.riddor.gov.uk):

- Damweiniau lle bod bywyd yn cael ei golli
- Damweiniau mawr
- Damweiniau yn arwain at gyfnod o absenoldeb o fwy na saith niwrnod
- Anafiadau i'r cyhoedd lle y bu'n rhaid mynd â nhw i'r ysbyty.

Hefyd, rhaid rhoi gwybod i'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch am rai clefydau a digwyddiadau peryglus yn gysylltiedig â'r gwaith.

Yn dilyn unrhyw ddamwain, caiff y sefyllfa ei harchwilio er mwyn penderfynu a oes angen gwneud newidiadau i offer, hyfforddiant neu systemau gwaith er mwyn atal sefyllfa debyg rhag digwydd yn y dyfodol.